



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

ONE AB
Every♥one Together

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau



Caredigrwydd



Gonestrwydd



Parch



//

**Mae ein Gwerthoedd
yn llunio sut rydym yn
gofalu am eraill a sut
rydym yn gweithio.
Maent yn ein helpu i
adeiladu diwylliant
o Garedigrwydd,
Gonestrwydd a Pharch
– tuag at ein gilydd a’r
rhai yr ydym yn eu
gwasanaethu.**

//



Gwneud yr Hyn sy'n iawn, Gyda'n Gilydd!

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd a'r gofal a ddarparwn. Rydym yn cefnogi ein gilydd i fod yn agored, i ddysgu, ac i weithredu gyda charedigrwydd, gonestrwydd a thegwch bob amser.



Caredigrwydd



Gonestrwydd



Parch

Nid yw ein gwerthoedd yn ddewisol. Maent yn hanfodol i bopeth a wnawn – o ochr y gwely i'r ystafell fwrdd. Gyda'n gilydd, rydym yn gwneud yr hyn sy'n iawn i'n cleifion, ein cydweithwyr, a'n cymunedau.





Caredigrwydd

Mae caredigrwydd wrth wraidd sut yr ydym yn gofalu am ein cleifion, ein gilydd a'n hunain. Mae'n golygu dangos empathi a thrugaredd a rhoi anghenion a phrofiadau ein hunain ac eraill wrth wraidd popeth a wnawn.

Ymddygiadau Allweddol:



Gwrando'n astud
ac ymateb gydag
empathi



Cynnig cefnogaeth
brydlon a chymorth
ymarferol



Cydnabod emosiynau
pobl eraill, tra'n bod
yn ymwybodol o'ch
emosiynau eich hun
a gwybod pryd i
flaenoriaethu eich lles



Addasu eich dull i
fodloni anghenion
unigol gyda
meddwlgarwch a
chreadigrwydd



Bod yn amyneddgar
ac yn galonogol,
yn enwedig mewn
sefyllfaoedd gofidus



Sut i Ddangos

Cyfarch pobl mewn ffordd agos-atoch a phersonol

Cymryd amser i ddeall pryderon rhywun cyn ymateb

Cynnig cymorth heb fod angen gofyn i chi

Defnyddio iaith ddigynnwrf a chalonogol

Gwrando i ddeall safbwyntiau ac anghenion eraill, tra'n aros yn ymwybodol o'ch rhai chi

Beth nad ydyw

Diystyru gofid neu bryderon rhywun

Bod yn gwta, yn ddiamynedd, neu'n ddifater

Methu â gweithredu pan fo rhywun yn amlwg mewn angen

Defnyddio iaith oeraidd, amheronol, neu angharedig

Dim ond gwrando i ymateb neu wrando gyda safbwyntiau rhagdybiedig

Esgeuluso neu roi eich lles eich hun o'r neilltu





Gonestrwydd

Rydym yn gweithredu gyda gonestrwydd, tegwch a thryloywder – gwneud y peth iawn, cymryd cyfrifoldeb, ac ennill ymddiriedaeth eraill. Rydym yn dal ein hunain a'n gilydd yn atebol i'n gweithredoedd a'n penderfyniadau.

Ymddygiadau Allweddol



Cyfathrebu'n onest, yn agored, ac yn barchus, gan sicrhau bod eich cyfathrebu yn gyson ac yn agored




Cymryd cyfrifoldeb personol drwy gydnabod camgymeriadau, gan fyfyrrio ar eu hachosion a cheisio cyfleoedd i wella



Cynnal polisïau, gweithdrefnau a safonau moesegol, a chefnogi eraill i wneud y peth cywir



Bod yn chwilfrydig, yn agored i newid, ac arweiniwch drwy esiampl gan ysgogi gwelliant ac arloesedd





Sut i Ddangos

Cymryd cyfrifoldeb am eich gweithredoedd, anrhydeddwch ymrwymiadau, byddwch yn atebol, a cheisio gwella bob amser

Meddwl cyn gweithredu gan ystyried effaith eich penderfyniadau ar eraill

Siarad am gamgymeriadau a dysgu ohonynt. Codi pryderon yn adeiladol a chefnogi eraill i wneud yr un peth, gyda ffocws ar ddysgu a gwella

Byddod yn deg, yn gyson, ac yn ddibynadwy. Cymwysu'r safonau a'r gwerthoedd a rennir ym mhob penderfyniad a gweithred

Bod yn agored i syniadau ac adborth. Gwrando ar eraill, rhannu eich syniadau, a chymryd camau i wella gwasanaethau a phrofiadau

Beth nad ydyw

Osgoi atebolrwydd neu roi'r bai ar rywun arall

Bod yn anonest neu guddio gwybodaeth bwysig

Anwybyddu rheolau neu gyfrifoldebau moesegol

Ymddwyn yn wahanol yn dibynnu ar bwy sy'n gwyllo

Methu â chymryd perchnogaeth am effaith eich gweithredoedd

Gwneud pethau oherwydd mai dyna'r ffordd y maent wedi cael eu gwneud erioed





Parch

**Rydym yn trin pawb ag urddas a thegwch,
gan ddathlu amrywiaeth a chreu diwylliant
lle mae pawb yn cael eu gweld, eu clywed
a'u gwerthfawrogi.**

Ymddygiadau Allweddol



**Siarad â phawb
gyda chwarteisi ac
ystyriaeth**



**Annog deialog
gynhwysol ac agored**



**Annog a dathlu
cyfraniadau**



**Annog creadigrwydd,
cydweithio a dysgu
ar y cyd**



**Parchu syniadau a
safbwyntiau sy'n
herio eich rhai chi**



Sut i Ddangos

Gwrando'n agored a heb farnu, gan roi lle i eraill rannu eu barn ac osgoi torri ar draws

Defnyddio iaith gynhwysol a pharchus, gan osgoi rhagdybiaethau a gan werthfawrogi gwahaniaethau

Cefnogi eraill i siarad a chyfrannu drwy annog pawb i rannu'r hyn sy'n bwysig iddynt

Gwerthfawrogi eraill drwy ddiolch i bobl am eu hymdrechion a chydabod eu cyflawniadau

Herio ymddygiadau di-fudd yn adeiladol drwy fyfyrio ar eich gweithredoedd eich hun a helpu eraill i weithio mewn ffyrdd mwy cadarnhaol

Beth nad ydyw

Siarad dros eraill neu ddiystyru safbwyntiau

Rhoi eich barn neu'ch safbwyntiau eich hun uwch ben yr hyn sy'n bwysig i eraill

Defnyddio iaith feirniadol, rhagfarnllyd, neu wahaniaethol

Anwybyddu mewnbwn neu gyflawniadau eraill

Ymateb gyda bai, ymddygiad ymosodol, neu osgoi



I bwy mae'r fframwaith iddo?

Mae'r fframwaith hwn ar gyfer pawb sy'n gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd ac sy'n cefnogi:



Recriwtio a
chynefino



Arfarnu a
datblygiad
personol



Gweithle
cadarnhaol sy'n
cael ei ysgogi
gan werthoedd



Datrys
pryderon
a modelu
ymddygiad

Mae ymchwil ar draws systemau'r GIG yn dangos bod gan sefydliadau sydd â diwylliant cryf sy'n cael ei arwain gan werthoedd sgoriau CQC gwell, canlyniadau iechyd gwell, llai o ddigwyddiadau o niwed y gellir eu hosgoi ac arweinyddiaeth gryfach ar bob lefel.





Nid yw ein gwerthoedd yn ddewisol. Maent yn hanfodol i ddarparu gofal diogel, effeithiol a thosturiol – ac i greu gweithle lle mae staff yn ffynnu. Maent yn sail i bopeth a wnawn, o ochr y gwely i'r ystafell fwrdd.



**Gyda'n gilydd, rydym yn gwneud yr
hyn sy'n iawn i'n cleifion,
ein cydweithwyr, a'n cymunedau.**



Caredigrwydd



Gonestrwydd



Parch



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

ONE AB
Every♥ne Together